| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Àbermaw** |
| **DYDDIAD** | **24ain Mawrth 2020** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbyrau** |

**1. Cyflwyniad.**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad bras i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod rhwng mis Hydref 2019 a Mawrth 2020, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

**2. Angorfeydd Abermaw a Chofrestru Cychod.**

2.1 Fel mae'r tymor yn nesáu, dosbarthwyd ffurflenni cais angorfeydd i'n cwsmeriaid presennol. Yn anffodus, dim ond nifer gyfyngedig sydd wedi eu hanfon yn ôl hyd yma. Derbyniwyd nifer o ymholiadau newydd yn swyddfa'r harbwr am angorfeydd yn yr harbwr a chofrestru cychod ar gyfer y flwyddyn a ddaw.

2.2 Hoffai'r Gwasanaeth atgoffa'r aelodau y dylid llenwi'r ffurflenni cais am angorfa a chwblhau'r gofynion gweinyddol cysylltiedig, gan ddychwelyd popeth i Swyddfa Harbwr Abermaw cyn gynted â phosib. Bydd hyn yn hwyluso proses weinyddol effeithiol.

2.3 Fel yn y blynyddoedd diwethaf, rhagwelir y cynhelir archwiliad tanddwr o angorfeydd y Cyngor yn yr harbwr o dan gyfarwyddyd yr Harbwrfeistr.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd**

3.1. Mae Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu safon genedlaethol y llywodraeth ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd y porthladdoedd morol. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.2 Mae gan y Gwasanaeth fersiwn ddiwygiedig o'r Cod Diogelwch i Harbyrau Gwynedd yn ei le gan gynnwys Harbwr Abermaw, a gymeradwywyd gan Arolygwyr yr Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau yn dilyn eu harchwiliadau y llynedd.

3.3 Bydd y Gwasanaeth yn parhau i adolygu'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd, yn ôl yr arfer safonol. Dylai aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol gyflwyno unrhyw sylwadau sydd ganddynt ar addasrwydd y Cod Diogelwch, ynghyd â unrhyw sylwadau ar drefniadau gwaith yr harbwr, i sicrhau bod y cod yn parhau yn berthnasol i weithgareddau lleol yr harbwr.

**4. Materion Staffio.**

Mae'r Awdurdod Harbwr yn falch o gadarnhau fod ganddo dri harbwrfeistr cynorthwyol mewn cyflogaeth llawn amser gyda Chyngor Gwynedd, sy'n gweithio ar draws harbyrau Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi. Penodwyd Cymhorthydd Harbwr Abermaw yn ffurfiol i'r swydd yn Harbwr Abermaw. Yn wahanol i'r staff tymhorol a benodwyd sy'n dilyn rhaglen hyfforddi strwythuredig,

bydd y Cymhorthyddion Harbwr yn rhoi gwell proffesiynoldeb, gyda gwell trefniadau gwaith gan hwyluso cynllunio i'r dyfodol yn y Gwasanaeth.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Dosberthir crynodeb bras o gyllidebau'r harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol, yn y cyfarfod.

5.2 Yn ystod y cyfnod yma, bu'n rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod;

- Cyflogi Cymhorthydd Harbwr llawn amser
- Cynnal a Chadw Cymhorthion Mordwyo a Goleufeydd
- Cynnal a chadw a gweithredu cychod yr Harbwr gan gynnwys prynu offer ychwanegol ar gyfer cwch patrôl Powercat i gwrdd â gofynion y Cod Ymarfer i alluogi'r cwch i fynd yn ei flaen i'r môr
- Cynnal a chadw'r tiroedd a'r celfi stryd

5.3 **Ffioedd a Thaliadau 2020/21.**

Bydd y Gwasanaeth yn darparu manylion ffioedd a thaliadau Harbwr Abermaw yn ystod y cyfnod Ebrill 2020 - Ebrill 2021 ynghyd â ffioedd lawnsio Cychod Pŵer a Cherbydau Dŵr Personol am yr un cyfnod, ar ddiwrnod y cyfarfod.

**6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd Harbwrfeistr Abermaw yn darparu crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2019, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Copi o'i adroddiad yw'r brif ddogfen.